Helfa sborion synhwyraidd

Trosolwg

Gweithgaredd ymarferol, sef hela sborion yn yr awyr agored, a fydd yn annog y plant i archwilio a darganfod ac yn eu helpu hefyd i ddatblygu geirfa ehangach.



Gweithgareddau

Dewiswch ardal awyr agored lle gellir casglu amrywiaeth eang o eitemau naturiol.

Rhowch flwch wyau i grwpiau bach o blant.

Heriwch nhw i ddod o hyd i chwe deunydd naturiol sydd i gyd yn teimlo'n wahanol, a gosod un deunydd ym mhob un o adrannau'r blwch wyau.

Dewch â'r plant yn ôl at ei gilydd i rannu eu canfyddiadau a'u disgrifiadau synhwyraidd.

Ailadroddwch y gweithgaredd yn ystod tymhorau gwahanol.

Offer

- Man naturiol
- Blychau wyau
- Tarpolin, neu rywbeth tebyg, i gwrdd arno fel grŵp ac archwilio'r deunyddiau a gasglwyd

Gwybodaeth ychwanegol

Fel grŵp, nodwch ymlaen llaw unrhyw beth na ellir ei gasglu, e.e. ffyngau. Ystyriwch ffyrdd eraill o gasglu a chyflwyno eitemau, e.e. defnyddio llinyn ar frigyn, gwasgu'r eitemau i mewn i glai, defnyddio potiau bach ar gyfer planhigion, defnyddio cerdyn gyda thâp â glud ar y ddwy ochr.

Deilliannau dysgu

- Llythrennedd / Iaith – geiriau disgrifiadol, sgiliau cyflwyno.
- Mathemateg – maint, siâp, patrwm, cymesuredd.
- Celf – defnyddio deunyddiau naturiol i greu gwaith celf dros dro yn yr awyr agored.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Herio'r plant i ddod o hyd i eitemau o'r un lliw, nifer neu faint.
- Adrodd stori – defnyddio'r eitemau a gasglwyd i greu stori.